

Cystadleuaeth i Ysgolion

Adroddiad Technegol i gyfrannu at lunio Adroddiad Blynyddol – Cynhyrchwyd Awst 2014

Kim McInally, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Tîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru

Cyflwyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, sy'n darparu nifer o wahanol wasanaethau iechyd i bobl Gogledd Cymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd ran bwysig i'w chwarae o ran gwella iechyd a lles y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Fel rhan o gyfres barhaus o adroddiadau blynyddol sy'n seiliedig ar lwybr bywyd, mae Adroddiad Blynyddol 2014 y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc rhwng 5 a 24 oed. Mae'r adroddiad yn defnyddio dull yn seiliedig ar asedau gan werthfawrogi cryfderau ac adnoddau pobl a chymunedau sy'n cefnogi iechyd a lles. Mae wedi'i dargedu at randdeiliaid proffesiynol y sector cyhoeddus a phreifat sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng ngogledd Cymru.

Gofynnwyd am gyfraniadau gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain fel prif randdeiliaid. Datblygwyd strategaeth ymgysylltu fel rhan o'r Ddogfen Cychwyn Prosiect er mwyn galluogi plant a phobl ifanc o bob oedran i gyfrannu eu safbwyntiau am yr hyn sy'n eu gwneud yn iach ac yn eu cadw'n iach. Roedd hyn yn cynnwys cystadleuaeth i blant oedran ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2 rhwng 7 ac 11 oed. Dim ond ysgolion cynradd a oedd wedi ennill Gwobr Ansawdd Genedlaethol Ysgolion Iach (NQA) a oedd yn cael cystadlu.

Caiff y cais buddugol yn y gystadleuaeth ei ddefnyddio fel clawr blaen yr adroddiad blynyddol a chyflwynwyd gwobr o £50 i'r enillydd. Bydd ysgol yr enillydd yn cael iPad fel gwobr. Cyflwynir y rhain yn ystod achlysur lansio'r Adroddiad Blynyddol ar 20fed o Dachwedd 2014 ar 'Ddiwrnod Byd-eang y Plant' a chyflwynir tystysgrif hefyd. Defnyddiwyd ceisiadau eraill fel darluniau yng nghorff yr adroddiad.

Dull

Lansiwyd y gystadleuaeth ym mis Mawrth 2014 ac roedd rhaid dychwelyd y ceisiadau at y Cydgysylltydd Ysgolion Iach lleol erbyn 8fed o Ebrill.

Anfonwyd llythyr at benaethiaid ysgolion cynradd ledled Gogledd Cymru a oedd wedi ennill 'Gwobr Ansawdd Genedlaethol Ysgolion Iach', yn eu gwahodd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth yn ystod mis Ebrill 2014. (**Atodiad 1**)

Cyflwynwyd taflen friffio'r gystadleuaeth i athrawon gan gynnwys sgript er mwyn sicrhau bod y cyfarwyddiadau'n gyson. (**Atodiad 2**)

Gofynnwyd i'r plant dynnu llun ar ffurflen gais heb ddefnyddio unrhyw eiriau, yn dangos y pethau 'da' yn eu bywyd sy'n eu gwneud iach ac yn eu cadw'n iach. Ar gefn y ffurflen, gofynnwyd iddynt ddisgrifio eu llun mewn dim mwy na thair brawddeg. (**Atodiad 3**)

Dychwelodd y Cydgysylltydd Ysgolion Iach y ceisiadau at dîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru.

Canlyniadau

Nifer y Ceisiadau

Derbyniwyd cyfanswm o 401 o geisiadau. Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr ysgolion a anfonodd geisiadau fesul sir a nifer y ceisiadau fesul sir.

Tabl 1:

	Wrecsam	**Sir y Fflint**	**Sir Ddinbych**	**Conwy**	**Gwynedd**	**Ynys Môn**
Nifer yr ysgolion cynradd yn y sir	60	89	48	53	97	48
Nifer yr ysgolion a gafodd y Wobr Ansawdd (ac felly a wahoddwyd i gymryd rhan)	3	2	1	2	3	1
Nifer yr ysgolion â Gwobr Ansawdd a anfonodd geisiadau	0	2	1	2	3	1
Nifer y ceisiadau fesul sir	0	79	152	144	89	32

Rhoddir dadansoddiad manylach fesul ysgol yn Nhabl 2:

Ysgolion a anfonodd geisiadau **CYFANSWM - 9 Ysgol**	**Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd fesul ysgol**	**Nifer y ceisiadau fesul ysgol ac oedran**	**Nifer yn Saesneg**	**Nifer yn Gymraeg**	**Nifer y ceisiadau heb ddisgrifiad**
Ysgol Parc Y Bont, Llanddaniel, Ynys Môn Cyfanswm nifer y disgyblion = 42	33 Ymgeisiodd 78.5% o blant yn y gystadleuaeth	1 x 7 oed 7 x 8 oed 11 x 9 oed 9 x 10 oed 5 x 11 oed	 1 3 2	1 7 10 6 3	
Ysgol Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd Cyfanswm nifer y disgyblion = 53	21 Ymgeisiodd 39.5% o blant yn y gystadleuaeth	4 x 7 oed 12 x 8 oed 5 x 9 oed		4 12 5	
Ysgol Nefyn, Gwynedd Cyfanswm nifer y disgyblion = 73	48 Ymgeisiodd 65.5% o blant yn y gystadleuaeth	3 x 7 oed 16 x 8 oed 17 x 9 oed 8 x 10 oed 4 x 11 oed	 1 1	3 14 15 8 3	 1 1 1
Ysgol Talysarn, Caernarfon, Gwynedd Cyfanswm nifer y disgyblion = 49	20 Ymgeisiodd 41% o blant yn y gystadleuaeth	1 x 7 oed 3 x 8 oed 5 x 9 oed 8 x 10 oed 3 x 11 oed		1 3 5 8 3	
Ysgol Cynfran, Llysfaen, Conwy Cyfanswm nifer y disgyblion = 80	38 Ymgeisiodd 47.5% o blant yn y gystadleuaeth	16 x 7 oed 12 x 8 oed 5 x 9 oed 5 x 10 oed	16 12 5 5		
Ysgol Caer Drewyn, Corwen, Sir Ddinbych Cyfanswm nifer y	36 Ymgeisiodd 92% o blant yn y gystadleuaeth	4 x 5 oed 12 x 6 oed 11 x 7 oed 7 x 8 oed 6 x 9 oed 7 x 10 oed	4 11 11 7 6 7	 1	1

disgyblion = 39		5 x 11 oed	5		
Ysgol Gwynedd, Y Fflint, Sir y Fflint Cyfanswm nifer y disgyblion = 185	75 Ymgeisiodd 40.5% o blant yn y gystadleuaeth	7 x 7 oed 26 x 8 oed 17 x 9 oed 16 x 10 oed 9 x 11 oed	4 17 12 14 8		2 9 5 2 1
Ysgol Gyred Cae'r Nant, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint Cyfanswm nifer y disgyblion = 161	4 Ymgeisiodd 2.5% o blant yn y gystadleuaeth	4 x 7 oed	4		
Ysgol Pen Y Bryn, Bae Colwyn, Conwy Cyfanswm nifer y disgyblion = 200	106 Ymgeisiodd 53% o blant yn y gystadleuaeth	18 x 7 oed 42 x 8 oed 17 x 9 oed 21 x 10 oed 8 x 11 oed	18 39 17 21 8		3

DS - Cyflwynodd Ysgol Caer Drewyn, Corwen geisiadau gan ddisgyblion 5 oed (x4 cais) a 6 oed (x12 o geisiadau) i'r gystadleuaeth. Tynnwyd y grwpiau oedran hyn o'r gystadleuaeth gan nad ydynt fewn Cyfnod Allweddol 2, sef y cyfnod cymwys.

Dadansoddi'r Ceisiadau

Cynhaliwyd y dadansoddiad thematig gan is-grŵp grŵp golygyddol yr Adroddiad Blynyddol. Roedd y themâu yn crynhoi'r darluniau a luniwyd gan y plant er mwyn mynegi eu safbwyntiau am yr hyn a oedd yn eu gwneud yn iach ac yn eu cadw'n iach. Roeddent hefyd yn ystyried yr esboniadau ysgrifenedig ar gefn y lluniau. Cafodd y themâu eu diffinio a'u henwi ymhellach er mwyn eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol (**Atodiad 4**).

Casglwyd y disgrifiadau ysgrifenedig (dyfyniadau) i gyfrannu at lunio'r bennod berthnasol yn yr adroddiad ac i'w defnyddio yn yr adroddiad fel y bo'n briodol er mwyn pwysleisio themâu penodol.

Beirniadu ceisiadau

Datblygwyd y broses o feirniadu'r gystadleuaeth (**Atodiad 5**) a phenodwyd panel o feirniaid gan grŵp y prosiect. Roedd y panel yn cynnwys 5 unigolyn a oedd yn cynrychioli: Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Awdurdodau Lleol gogledd Cymru **(Atodiad 6)**. Yn wreiddiol, awgrymwyd cynnwys plant lleol yn y broses feirniadu ond yn anffodus nid oedd yn bosibl trefnu hyn o fewn yr amserlen ac felly cafodd aelod o Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint ei recriwtio i gynorthwyo gyda'r broses feirniadu ar ran y bobl ifanc. Cafodd y gwaith ei feirniadu ddydd Iau 5ed o Fehefin 2014 yn 'The Interchange', Bae Colwyn.

Anfonwyd llythyrau at bob ysgol yn rhoi gwybod iddynt am enillydd y gystadleuaeth ac yn diolch iddynt am gymryd rhan. Trefnwyd i gyflwyno tystysgrif a Thaleb y Stryd Fawr gwerth £50 yn wobr i'r cais buddugol. Cynhaliwyd hyn yn ystod gwasanaeth yr ysgol gyfan ar ddiwrnod olaf y tymor yn Ysgol Gwynedd, Y Fflint ar 18fed o Orffennaf 2014. Daeth y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yno i gyflwyno'r wobr.

Atodiad 1

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

'Preswylfa', Ffordd Hendy
YR WYDDGRUG, Sir Y Fflint CH7 1PZ

'Preswylfa', Hendy Road
MOLD, Flintshire CH7 1PZ

Annwyl Bennaeth

Parthed: Cystadleuaeth '**Beth sy'n eich gwneud yn iach a'ch cadw'n iach'**

Iechyd a lles plant a phobl ifanc Gogledd Cymru yw un o brif flaenoriaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid ac felly dyma fydd ffocws Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yn 2014. Mae'r adroddiad yn rhan o gyfres o adroddiadau blynyddol sy'n edrych ar iechyd a lles y boblogaeth ar draws pob cyfnod bywyd. Bydd yn dwyn sylw at dystiolaeth gyfredol a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu i wella deilliannau iechyd i blant a phobl ifanc gan ddefnyddio dull o weithredu a seiliwyd ar 'Asedau' (gweler y daflen ar wahân). Mae adroddiadau blaenorol ar gael trwy'r ddolen ganlynol http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/65092

Mae'n hanfodol cynnwys plant a phobl ifanc o'r dechrau wrth ddatblygu'r adroddiad blynyddol ac felly rydym yn ysgrifennu atoch i ofyn am eich help a chefnogaeth i redeg cystadleuaeth yn eich ysgol ar gyfer plant 7-11 oed yn ystod Mawrth ac Ebrill 2014. Bydd y gystadleuaeth yn cynnwys pob ysgol gynradd ar draws Gogledd Cymru sydd wedi cyflawni Gwobr Ansawdd Genedlaethol (NQA) Ysgolion Iach.

Bydd yr ymgais buddugol yn cael ei ddefnyddio fel clawr blaen yr adroddiad ac efallai y bydd ceisiadau eraill yn cael eu defnyddio fel darluniau. Bydd tystysgrif a gwobr o £50 o dalebau 'high street' yn cael eu cyflwyno i'r disgybl buddugol; bydd ei (h)ysgol yn derbyn iPAD. Y gobaith yw efallai lansio'r Adroddiad Blynyddol yn yr ysgol fuddugol ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant ar ddydd Iau 20fed Tachwedd 2014.

Rwy'n amgáu taflen briffio sy'n cynnwys gwybodaeth am y gystadleuaeth a chanllawiau am sut i wneud cais. Y dyddiad olaf i ddychwelyd ceisiadau at eich Cydlynydd Ysgolion Iach lleol yw **dydd Mawrth 8fed Ebrill 2014**.

Rydym yn credu y bydd y gystadleuaeth yn ffordd wych o ymgysylltu plant a phobl ifanc mewn siapio dyfodol mwy iach a hapus a dwyn sylw at y gwaith ardderchog mae ysgolion yn ei wneud yn darparu'r amgylchedd i hyn ddigwydd.

Yr eiddoch yn gywir

Dr Rob Atenstaedt
Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
CC Cydlynydd Ysgolion Iach Lleol

Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office,
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW **Gwefan:** www.pbc.cymru.nhs.uk / **Web:** www.bcu.wales.nhs.uk

Kim McInally, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Tîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru

Atodiad 2

Kim McInally amended 6/3/2014

Cystadleuaeth – 'Beth sy'n Eich Gwneud yn Iach a'ch Cadw'n Iach'

Taflen Briffio ar gyfer Athrawon

Er mwyn datblygu adroddiad sy'n canolbwyntio ar iechyd Plant a Phobl Ifanc, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid yn ceisio barn plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad yn rhan o gyfres o adroddiadau blynyddol sy'n edrych ar iechyd a lles y boblogaeth ar draws pob cyfnod bywyd. Mae adroddiadau blaenorol ar gael trwy'r ddolen ganlynol http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/65092 Bydd yr adroddiad yn dwyn sylw at dystiolaeth gyfredol a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu i wella deilliannau iechyd i blant a phobl ifanc gan ddefnyddio dull o weithredu a seiliwyd ar 'Asedau' (gweler y daflen ar wahân).

Er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, mae cystadleuaeth yn cael ei chynnal i blant sy'n mynychu ysgolion cynradd sydd wedi cyflawni Gwobr Ansawdd Genedlaethol Ysgolion Iach; mae Cydlynwyr Ysgolion Iach ar draws Gogledd Cymru wedi bod yn gysylltiedig â dylunio'r gystadleuaeth hon. **Mae'r gystadleuaeth ar agor i bob plentyn 7-11 oed yn unig.**

Gwobrau - Bydd tystysgrif a gwobr o £50 o dalebau 'high street' yn cael eu cyflwyno i'r disgybl buddugol; bydd ei (h)ysgol yn derbyn iPad. Bydd y llun buddugol yn cael ei ddefnyddio ar glawr yr adroddiad, a gyda chaniatâd yr ysgol bydd yr adroddiad yn cael ei lansio yn yr ysgol fuddugol ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant, ar ddydd Iau 20fed Tachwedd 2014.

Efallai y bydd ceisiadau eraill yn cael eu defnyddio i ddarlunio'r adroddiad.

Bydd gwobrau'n cael eu cyflwyno yn ystod y digwyddiad lansio ar 20fed Tachwedd.

Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys 2 ran:

1. **Tynnu llun** ar y ffurflen gais atodedig sy'n dangos 'Beth sy'n eich gwneud yn iach a'ch cadw'n iach' – **ni chaniateir unrhyw ysgrifen ar y llun ei hun** – ond ysgrifennwch enw a chyfeiriad yr ysgol, enw'r disgybl ac oed y disgybl **ar y ffurflen. Buasem yn ddiolchgar petaech yn gallu sicrhau bod y wybodaeth hon yn ddarllenadwy.**
2. **Disgrifiwch ar y ffurflen gais** mewn 3 brawddeg neu lai "beth sy'n eich gwneud yn iach a'ch cadw'n iach?"

Rhaid dychwelyd ceisiadau'r gystadleuaeth at eich Cydlynydd Ysgolion Iach lleol erbyn dydd Mawrth 8fed Ebrill 2014.

Bydd panel yn ymgymryd â'r beirniadu a fydd yn cynnwys partneriaid allweddol perthnasol o feysydd iechyd, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Bydd negeseuon allweddol yn cael eu dadansoddi a bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Rydym wedi cynnwys sgript y gallech ei ddefnyddio gyda'r plant i gyflwyno'r gystadleuaeth:

Atodiad 3

CYSTADLEUAETH

BETH SY'N EICH GWNEUD YN IACH A'CH CADW'N IACH

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol:

Eich Enw:

Eich Oed:

Tasg:

1. **Ar gefn y daflen hon**, tynnwch lun sy'n dangos **'beth sy'n eich gwneud yn iach a'ch cadw'n iach'**

   *** Peidiwch ag ysgrifennu unrhyw eiriau ar y llun ei hun**

2. Disgrifiwch '**beth sy'n eich gwneud yn iach a'ch cadw'n iach**' mewn 3 brawddeg neu lai (yn Saesneg neu Gymraeg)

Diolch yn fawr iawn am gymryd rhan!

Dychwelwch y ffurflen gais hon i'ch athro/athrawes

Atodiad 4

Dyma'r themâu a amlygwyd gan y plant:

Cadw'n Lân a Golchi Dwylo
Meysydd Chwarae a Meysydd Sgrialu
Plât bwyta'n iach
Y teulu
Sgwter/Sgrialfwrdd
Dim gormod o Fraster na Siwgr
Heulwen
Cerdded
Pysgod
Sgipio
Tenis
Ffrindiau
Llaeth
Iechyd Deintyddol
Y Gampfa
5 y Dydd
Chwaraeon
Rhedeg
Deiet Iach
Seiclo
Nofio
Cysgu
Pêl-droed
Chwarae a bod yn yr awyr agored
Ymarfer corff/ bod yn ffit
Dŵr
Llysiau
Ffrwythau

Atodiad 5

Y Broses Feirniadu a Meini Prawf y Gystadleuaeth:

1. Cael gwared ar unrhyw geisiadau gyda geiriau ar y llun
2. Rhoi rhifau ar y lluniau a'u rhoi mewn grŵp fesul 10 (gallai fod yn fwy neu'n llai yn dibynnu ar nifer y ceisiadau)
3. Cam 1 – Y beirniaid yn dewis y 2 lun sydd orau ganddynt o bob set a chofnodi'r rhifau a'u rheswm dros eu dewis ar daflen a ddarparwyd
4. Cam 2 – Ailadrodd y broses hon gan ddewis 1 o'r ceisiadau sydd ar ôl, eu cofnodi ar y daflen dempled a ddarparwyd nes bydd 1 cais fesul grŵp ar ôl h.y. 5 cais ar ôl
5. Y Rownd Derfynol - Yna'r beirniaid yn trafod pob un o'r 5 cais terfynol sydd ar ôl ac yn cytuno ar enillydd

Wrth ystyried pob llun, mae'n rhaid i'r ateb fod yn 'ydy' i bob un o'r cwestiynau isod:

- A yw'r llun heb unrhyw eiriau arno?
- A yw'r llun yn dangos yn amlwg rhywbeth sydd o fudd i iechyd a lles i blant?
- A yw'r llun yn hawdd ei ddeall?
- A yw'r lliwiau yn sefyll allan?
- A yw'r llun yn eglur i bobl sydd â nam ar eu golwg?
- A yw'r llun yn cael ei ddisgrifio'n eglur mewn ychydig frawddegau ar gefn y llun?

ENW	CAM

GRŴP	RHIF Y CAIS A DDEWISIWYD	RHESWM DROS Y DEWIS
A		
B		

C		
Ch		
D		

Atodiad 6

Y Panel Beirniadu

Enw	**Teitl**	**Sefydliad**
Kim McInally	Uwch Arbenigwr Datblygu Iechyd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Claire Jones	Arbenigwr Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Vidyasree Roghavan	Meddyg (Pediatreg)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bethan Williams,	Swyddog Prosiectau Plant a Phobl Ifanc	Uned Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd (yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn yn ogystal â Chyngor Sir Gwynedd)
Emma Murphy	Swyddog Cynnwys a Gwybodaeth	Cyngor Sir y Fflint (Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc)
Kezia Lavender	Cynrychiolydd Person Ifanc	Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint